

## **Rhaglen LEADER 2014 - 2020 Conwy Wledig**

### **Nodiadau Cyfarwyddyd**

#### **Cefndir**

Mae Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) Conwy wedi'i ariannu trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 fel rhan o Gronfa Amaethyddol Llywodraeth Cymru ac Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, ac mae'n gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflawni rhaglen LEADER 2014 - 2020 yng Nghonwy wledig.

Mae dull LEADER yn cynnwys methodoleg datblygu wledig sy'n seiliedig ar nifer o elfennau craidd sy'n cynnwys partneriaeth, datblygiad tiriogaethol 'o galon y gymuned', arloesi a chydweithredu.

Gweithredir methodolegau LEADER gan bartneriaethau ardal leol sy'n dod â sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector at ei gilydd. Mae partneriaeth LEADER yn cael ei hadnabod fel GGLI. Mae'r GGLI yn cynnwys croestoriad o gymunedau lleol ac mae aelodau GGLI yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, grwpiau busnes, y trydydd sector neu sefydliadau cymdeithasol a chyrrff amgylcheddol, ymysg eraill. Mae'r GGLI amlsector yn dod ac amrywiaeth eang o wybodaeth a sgiliau at ei gilydd yn ganolog ac yn sicrhau bod buddiannau amrywiol yn cael ymdriniaeth deg.

Mae gan bob GGLI Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) sy'n cynnwys cyfres o gamau datblygu ac amcanion gwledig sydd wedi cael eu hawgrymu gan gymunedau lleol yn ardal y GGLI. Mae gofyn i bob GGLI baratoi SDLI cyn iddynt ddechrau dosbarthu cyllid Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) i brosiectau LEADER. Mae'r SDLI yn cynnwys dadansoddiad manwl o ardal GGLI i nodi beth mae pobl leol yn credu sydd fwyaf pwysig i ddatblygiad eu hardal. Mae'r SDLI hefyd yn egluro pa faterion y mae'r boblogaeth wledig yn ystyried yw'r prif heriau y dylai arian LEADER gael ei ddefnyddio i ymdrin â nhw. Rhaid i bob prosiect GGLI a gefnogir gan yr EAFRD gyd-fynd â nodau'r SDLI.

Mae arloesi yn rhan bwysig o fethodoleg LEADER. Drwy hyrwyddo arloesed, mae GGLI yn anelu at annog sefydliadau lleol, grwpiau a busnesau i brofi ffyrdd newydd o ddatblygu eu hardal. Mae LEADER wedi bod yn hynod effeithiol wrth ysgogi pob math o wahanol gynlluniau arloesol o safbwynt economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ledled Ewrop wledig. Mae gwahanol ffyrdd y mae arloesi yn cael ei fynegi drwy LEADER yn cynnwys:

- Gweithio mewn ffyrdd newydd: gallai hyn gynnwys dulliau datblygu gwledig sy'n cymhwyso syniadau newydd, defnyddio technegau newydd, canolbwyntio ar farchnadoedd amgen, dod â sectorau a rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd trwy ddulliau rhwydweithio newydd, cefnogi grwpiau blaenoriaeth newydd, neu ddod o hyd i atebion newydd i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd: mae'r rhain yn aml yn deillio o brofi ffyrdd arloesol o weithio a gellir eu creu drwy gymhwyso technegau, partneriaethau, technoleg, prosesau, ymchwil a ffyrdd o feddwl newydd.

- Mae addasu dulliau profedig i amgylchiadau newydd yn cael ei gydnabod hefyd fel dull effeithiol o greu datblygiadau gwledig arloesol sy'n bwysig yn lleol. Mae'r mathau hyn o gamau gweithredu arloesol yn aml yn cael eu hwyluso gan drosglwyddo gwybodaeth rhwng rhanbarthau neu Aelod-wladwriaethau.


Cafodd LEADER ei seilio ar saith egwyddor - ac mae'n rhaid i bob un ohonynt ddod ynghyd er mwyn iddo fod yn llwyddiannus.

## The LEADER approach Y dull LEADER



*'Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale'*

*'Cysylltiadau rhwng yr economi wledig a chamau datblygu'*



Manteision allweddol dull LEADER yw:

- Mae gan bobl leol well gwybodaeth am heriau lleol sydd angen eu trin a'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael.
- Maent yn gallu gwneud defnydd o'r adnoddau lleol ar gyfer y broses ddatblygu mewn modd nad yw'n digwydd gyda dulliau "o'r brig i lawr" traddodiadol.
- Mae hyn yn rhoi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth ac ymrwymiad i bobl leol tuag at y prosiect, sydd yn ei dro yn caniatáu iddynt wneud y gorau o'u hasedau lleol.
- Gallai'r dull hwn helpu i ddatblygu ymddiriedaeth a pherthynas waith cadarnhaol ymysg y gymuned a'r busnesau lleol.

### Y Rhaglen LEADER yng Nghonwy

Yn dilyn cwblhau'r Rhaglen LEADER 2007 - 2013 yn llwyddiannus, rydym yn awr mewn rhaglen LEADER newydd ers hydref 2015.

Ffurfiwyd GGLI (Conwy Cynhaliol) a chyflwynodd SDLI i Lywodraeth Cymru ym Medi 2014. Mae wedi llwyddo i sicrhau arian ar gyfer prosiectau a fydd yn creu cymunedau lleol bywiog, grymus a chysylltiedig. Bydd hyn yn darparu atebion cynaliadwy ac arloesol i faterion economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, er mwyn hybu cyfoeth economaidd y Sir.

Hoffai'r GGLI wybod os oes gan eich sefydliad, grŵp neu fusnes syniad/prosiect arloesol sy'n cyd-fynd a themau LEADER, y themâu trawsbynciol ac amcanion y SDLI isod.

### Themâu LEADER

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol

## Themâu Trawsbynciol

- Eithrio Cymdeithasol
- Taclo Tlodi
- Yr Iaith Gymraeg
- Cefnogi'r Uwchdiroedd
- Cyfle Cyfartal
- Datblygu Cynaliadwy

## Amcanion Strategol Strategaeth Ddatblygu Lleol Conwy:

- Datblygu sylfaen economaidd amrywiol a gweithlu a chymwysterau addas yng Nghonwy wledig.
- Darparu cludiant hygyrch ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad neu sydd heb fynediad at gludiant cyhoeddus confensiynol.
- Gwella ymelwa economaidd yr amgylchedd diwylliannol, adeiledig a naturiol
- Cefnogi cydlyniant ac integreiddio cymunedol a mynediad i wasanaethau sylfaenol

## Prosiectau Refeniw

Bydd prosiectau fydd yn cael eu cefnogi yn refeniw yn eu math gyda refeniw yn cael ei ddiffinio fel unrhyw beth sy'n costio llai na £10,000.

## Pwy all gymryd rhan?

Mi fydd Conwy Cynhaliol yn ceisio ymgysylltu â chymunedau o ddiddordeb yn ogystal â'r rhai a ddiffinnir yn ddaearyddol. Mi fydd gweithgareddau llwyddiannus angen mewnbwn ystod eang o gyfranogwyr ac mi fydd llwyddiant gan amlaf yn codi yn sgil ymgysylltiad a chyfranogiad pawb sydd â diddordeb. Gall brosiectau gynnwys cyfranogwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol.

Bydd modd cydweithio gydag ystod eang o gyrff a mudiadau ond nid oes modd ariannu eraill i weithredu cynlluniau tu allan i drefniant caffael. Mae sawl rheswm am hyn:

- Nid oes modd cynnig grant (neu unrhyw beth sydd yn debyg i grant)
- Mae gofyn cyd-fynd â rheolau caffael ar yr holl wariant
- Mae gofyn cyd-fynd â rheolau Cymorth Gwladwriaethol ac mae gofyn osgoi rhoi mantais fasnachol i unrhyw fusnes neu fudiad.

## Sut fydd prosiectau yn cael eu datblygu?

Gall sefydliadau gyflwyno Ffurflen Syniad am Brosiect i'r GGLI. Bydd tîm Conwy Cynhaliol yna yn gweithio gyda'r sefydliad ac aelodau'r GGLI i ddatblygu'r syniad prosiect. Ni ddisgwylir i brosiectau cael eu cyflwyno i Conwy Cynhaliol yn eu ffurf derfynol. Mae gan y staff rôl allweddol mewn adnabod prosiectau addawol ac ychwanegu elfennau atynt er mwyn eu dyrchafu i mewn i brosiect LEADER.

Bydd Conwy Cynhaliol hefyd yn medru cymryd rôl ragweithiol a datblygu cynlluniau eu hunain sydd yn cyfateb i'r Strategaeth Datblygu Leol. Yn yr achosion yma byddwn yn recriwtio cymuned o ddiddordeb perthnasol i gefnogi a chyflawni'r prosiect.

## Amserlen a Chapasiti

Mae'n gynllun 6 mlynedd sydd yn meddu ar adnoddau dynol ac ariannol cyfyngedig. Mae gofyn i Conwy cynhaliol reoli'r adnoddau dros oes y rhaglen er mwyn sicrhau ansawdd ac effaith y gweithgaredd. Bydd Conwy Cynhaliol yn cadw'r hawl i gyfyngu ar y nifer o brosiectau sydd yn cael ei datblygu a gweithredu ar unrhyw un adeg. Unwaith bydd Ffurflen Syniad am Brosiect wedi cael ei chyflwyno bydd cyswllt rheolaidd gyda'r sefydliad a byddwn yn anelu am benderfyniad o fewn 6 wythnos.

## Beth Nesa?

Os ydych yn unigolyn, grŵp, cymuned, busnes neu sefydliad sydd â syniad, cwblhewch y ffurflen a ddarparwyd a'i dychwelyd i: [ConwyLocalActionGroup@conwy.gov.uk](mailto:ConwyLocalActionGroup@conwy.gov.uk) neu drwy'r post i LAG Conwy, Glasdir, Plas yn Dre, Llanrwst, Conwy. LL26 0DF.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn cyn cwblhau'r ffurflen, neu os hoffech drafod eich syniadau gyda ni, cysylltwch â ni ar: 01492 576 674

